# Cofrestrfa Tir EF

## Cais mewn cysylltiad ag achosion ymchwilio neu orfodi (llys, ansolfedd, treth)

**CIT**

**Dylai unrhyw rannau o'r ffurflen nad ydynt yn cael eu teipio gael eu llenwi mewn inc du ac mewn prif lythrennau.**

Os bydd angen mwy o le arnoch na'r hyn sydd ar gael mewn panel, ac mae'ch meddalwedd yn caniatáu hynny, gallwch ehangu unrhyw banel yn y ffurflen. Fel arall defnyddiwch ddalen barhau CS a'i hatodi i'r ffurflen hon.

Ni all Cofrestrfa Tir EF roi cyngor cyfreithiol ond mae canllawiau ar geisiadau i Gofrestrfa Tir EF (gan gynnwys ein cyfarwyddiadau ymarfer i drawsgludwyr) ar gael o www.gov.uk/land-registry.cy

I gael gwybodaeth am sut mae Cofrestrfa Tir EF yn prosesu eich gwybodaeth bersonol, gweler ein Siarter Gwybodaeth Bersonol.

Rhowch 'X' yn y blwch priodol.

Codir y ffi i'r cyfrif a nodwyd ym mhanel 2.

**1** Dull talu'r ffi

☐ siec yn daladwy i 'Cofrestrfa Tir'

☐ debyd uniongyrchol, o dan gytundeb gyda'r Gofrestrfa Tir

Rhaid cwblhau'r panel hwn ar bob adeg.

Dim ond i gwsmeriaid proffesiynol, fel cyfreithwyr, mae rhif allwedd ar gael.

Os ydych yn talu trwy ddebyd uniongyrchol, codir y ffi i'r cyfrif hwn.

Os rhowch gyfeiriad ebost byddwn yn cysylltu â chi fel rheol trwy ddefnyddio'r cyfeiriad hwn yn unig.

**2** Anfonir y cais hwn i'r Gofrestrfa Tir gan

Rhif allwedd (os yw'n gymwys):

Enw:

Cyfeiriad neu rif blwch DX yn y DU:

Cyfeiriad ebost:

Cyfeirnod:

| Rhif ffôn | Rhif ffacs |
|---|---|
| | |

## Rhan 1 – Cais

Rhowch 'X' yn y blwch(blychau) priodol.

**3** Rwy'n gwneud cais

☐ i archwilio'r gofrestr a/neu ddogfen(nau) a nodwyd ar y Ffurflen PIC atodedig

☐ am gopi/copïau swyddogol o'r gofrestr/cynllun a nodwyd ar y Ffurflen OC1 atodedig

☐ am gopi/copïau swyddogol o'r ddogfen(nau) a nodwyd ar y Ffurflen OC2 atodedig

☐ am gopi/copïau o'r argraffiad(au) hanesyddol o'r gofrestr/cynllun teitl a nodwyd ar y Ffurflen HC1 atodedig

☐ am chwiliad o'r map mynegai ar sail y Ffurflen SIM atodedig

☐ am chwiliad o'r mynegai rhyddfreintiau cysylltiedig a maenorau ar sail y Ffurflen SIF atodedig

☐ am chwiliad yn y mynegai enwau perchnogion ar sail y Ffurflen PN1 atodedig

☐ am chwiliad yn y mynegai enwau perchnogion ar sail y Ffurflen PN1 atodedig ac am gopïau swyddogol o'r holl gofrestri a ddatgelir gan ganlyniadau'r chwiliad hwnnw

Rhaid i chi gwblhau'r dystysgrif briodol yn Rhan 2 y ffurflen hon hefyd.

| | | |
|---|---|---|
| 4 | Llofnod y ceisydd: | |
| | Printiwch yr enw llawn: | |
| | Dyddiad: | |

RHYBUDD
Os ydych yn rhoi gwybodaeth mewn modd anonest neu'n gwneud datganiad y gwyddoch ei fod, neu a allai fod yn anwir neu'n gamarweiniol, ac yn bwriadu, trwy wneud hynny, gynnig mantais i chi neu rywun arall, neu achosi colled neu'r risg o golled i rywun arall, gallech fod yn cyflawni'r trosedd o dwyll o dan adran 1 o Ddeddf Twyll 2006, a'r uchafgosb ar gyfer hyn yw carchar o 10 mlynedd neu ddirwy ddiderfyn, neu'r ddau.

Os nad ydych yn llenwi'r ffurflen hon gyda'r gofal priodol gall diogelwch o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 gael ei golli os yw camgymeriad yn cael ei wneud yn y gofrestr o ganlyniad i hyn.

**Rhan 2 – Tystysgrifau** *Rhowch "X" yn y blwch(blychau) ar gyfer y dystysgrif briodol gan lenwi unrhyw fylchau o ran y dystysgrif honno. Os yw'r dull cynhyrchu yn caniatáu, gallwch hepgor pob un o'r paneli canlynol ar wahân i'r un sy'n cynnwys y dystysgrif briodol.*

☐ **TYSTYSGRIF A** *Ymchwiliadau troseddol cyffredinol.*

Tystiaf fod trosedd sef
yn groes i
wedi digwydd neu ei bod yn rhesymol i amau ei fod wedi digwydd a bod rheswm dros gredu y gall y wybodaeth ofynnol fod yn berthnasol i ymchwilio'r trosedd neu i gychwyn achos yn ei gylch.

☐ **TYSTYSGRIF B** *Adennill neu ddosbarthu elw trosedd cyffredinol.*

Tystiaf ar yn Llys
y cafwyd y canlynol
yn euog o drosedd(au)
sef
yn groes i ac yr ystyriwyd y troseddau canlynol

a bod rheswm dros gredu y gall y wybodaeth ofynnol fod yn berthnasol i gychwyn achos i wneud elw cyflawni'r trosedd hwnnw (troseddau hynny) ar gael i'w ddosbarthu neu, fel arall i'w adennill.

Rwy'n (Tystysgrifau A neu B yn unig)

☐ Brif Swyddog yr Heddlu neu'n swyddog heddlu gydag awdurdod i wneud cais ar ran Prif Swyddog.

☐ Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus neu'n aelod o Wasanaeth Erlyn y Goron gydag awdurdod i wneud cais ar ran y Cyfarwyddwr.

☐ Cyfarwyddwr y Swyddfa Twyll Difrifol neu'n aelod o'r Swyddfa Twyll Difrifol gydag awdurdod i wneud cais ar ran y Cyfarwyddwr.

☐ person wedi ei awdurdodi i wneud cais gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau.

☐ person wedi ei awdurdodi i wneud cais gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes a Masnach.

☐ swyddog Cyllid a Thollau EF.

☐ Pennaeth Adran yn Is-adran Gorfodi a Throseddau Ariannol yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, neu'n aelod o staff yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol gydag awdurdod i wneud cais ar ran Pennaeth Adran.

☐ swyddog awdurdodedig o Awdurdod Gwrth-dwyll y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

☐ person wedi ei awdurdodi i wneud cais gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

☐ swyddog neu'n swyddog heb gomisiwn o fewn Uned Cudd-wybodaeth ac Ymchwilio'r Heddlu, Catrawd Gweithrediadau Arbenigol yr Heddlu Milwrol Brenhinol.

☐ **TYSTYSGRIF C** *Ymchwiliad i droseddau masnachu cyffuriau ar sail y diffiniad yn Neddf Masnachu Cyffuriau 1994.*

Tystiaf fod sail resymol dros amau bod y wybodaeth ofynnol yn debygol o fod o werth sylweddol (boed hynny ynddi'i hun neu ynghyd â gwybodaeth arall) i ymchwiliad i fasnachu cyffuriau ar sail y diffiniad yn adran 1(3) o Ddeddf Masnachu Cyffuriau 1994.

☐ **TYSTYSGRIF D** *Ymchwiliad i weld a yw rhywun wedi elwa ar fasnachu cyffuriau neu i hwyluso adennill gwerth elw masnachu cyffuriau.*

Tystiaf fod                                        wedi cyflawni neu fod sail resymol dros amau ei fod/bod wedi cyflawni trosedd masnachu cyffuriau ar sail y diffiniad yn adran 1(3) o Ddeddf Masnachu Cyffuriau 1994 a bod gennyf sail resymol dros amau bod y wybodaeth ofynnol yn debygol o fod o werth sylweddol (boed hynny ynddi'i hun neu ynghyd â gwybodaeth arall) i ymchwiliad i weld a yw'r person hwnnw wedi elwa ar fasnachu cyffuriau neu i hwyluso adennill gwerth ei elw o fasnachu cyffuriau.

Rwy'n (Tystysgrifau C neu D yn unig)

- ☐ Brif Swyddog yr Heddlu neu'n swyddog heddlu gydag awdurdod i wneud cais ar ran Prif Swyddog.
- ☐ Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus neu'n aelod o Wasanaeth Erlyn y Goron gydag awdurdod i wneud cais ar ran y Cyfarwyddwr.
- ☐ swyddog Cyllid a Thollau EF.
- ☐ Arglwydd Adfocad neu'n berson yn cynnal erlyniad yn yr Alban ar ran yr Arglwydd Adfocad.

☐ **TYSTYSGRIF E** *Ymchwiliad i weld a yw rhywun wedi elwa ar drosedd y cyfeiriwyd ato yn y dystysgrif neu i hwyluso adennill gwerth eiddo a gafwyd o'r trosedd hwnnw: Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988.*

Tystiaf fod                                        wedi cyflawni trosedd neu fod sail resymol dros amau ei fod/bod wedi cyflawni neu fod sail resymol dros amau bod rhywun wedi cyflawni trosedd y mae rhan VI o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 yn berthnasol iddo a bod gennyf sail resymol dros amau bod y wybodaeth ofynnol yn debygol o fod o werth sylweddol (boed hynny ynddi'i hun neu ynghyd â gwybodaeth arall) i ymchwiliad i weld a yw'r person hwnnw wedi elwa ar y cyfryw drosedd neu i hwyluso adennill gwerth yr eiddo a gafwyd o neu mewn cysylltiad â'r cyfryw drosedd.

Rwy'n

- ☐ Brif Swyddog yr Heddlu neu'n swyddog heddlu gydag awdurdod i wneud cais ar ran Prif Swyddog.
- ☐ Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus neu'n aelod o Wasanaeth Erlyn y Goron gydag awdurdod i wneud cais ar ran y Cyfarwyddwr.
- ☐ swyddog Cyllid a Thollau EF.
- ☐ Cyfarwyddwr y Swyddfa Twyll Difrifol neu'n aelod o'r Swyddfa Twyll Difrifol gydag awdurdod i wneud cais ar ran y Cyfarwyddwr.
- ☐ person wedi ei awdurdodi i wneud cais gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes a Masnach.

☐ **TYSTYSGRIF F** *I gynorthwyo'r Gwasanaethau Diogeledd yn eu gwaith.*

Tystiaf fod sail resymol dros gredu bod y wybodaeth ofynnol yn debygol o fod o werth sylweddol (boed hynny ynddi'i hun neu ynghyd â gwybodaeth arall) wrth gynorthwyo'r Gwasanaethau Diogeledd yn eu gwaith o dan adran 1 o Ddeddf y Gwasanaethau Diogeledd 1989.

Rwy'n Gyfarwyddwr Cyffredinol y Gwasanaethau Diogeledd neu'n aelod o'r Gwasanaethau Diogeledd gydag awdurdod i wneud cais ar ran y Cyfarwyddwr Cyffredinol.

☐ **TYSTYSGRIF G** *Ymchwilio i derfysgwyr.*

Tystiaf fod sail resymol dros amau bod y wybodaeth ofynnol yn debygol o fod o werth sylweddol (boed hynny ynddi'i hun neu ynghyd â gwybodaeth arall) i ymchwiliad i derfysgwyr y mae adran 32 o Ddeddf Terfysgaeth 2000 yn berthnasol iddo.

Rwy'n Brif Swyddog yr Heddlu neu'n swyddog heddlu gydag awdurdod i wneud cais ar ran Prif Swyddog.

☐ **TYSTYSGRIF H** *Ymchwiliad o dan Ddeddf Elw Troseddau 2002: Atafaelu.*

Tystiaf fod yn destun ymchwiliad i weld a yw wedi elwa ar ei ymddygiad troseddol, neu faint neu leoliad elw ei ymddygiad troseddol; fod sail resymol dros amau ei fod wedi elwa ar ei ymddygiad troseddol; a bod sail resymol dros gredu bod y wybodaeth ofynnol yn debygol o fod o werth sylweddol (boed ynddi'i hun ai peidio) i'r ymchwiliad.

Rwy'n

- ☐ gwnstabl.
- ☐ swyddog Cyllid a Thollau EF.
- ☐ Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol neu'n swyddog o'r Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol gydag awdurdod i wneud cais ar ran y Cyfarwyddwr Cyffredinol.
- ☐ ymchwiliwr ariannol achrededig yn dod o fewn adran 378(1)(b) o Ddeddf Elw Troseddau 2002.
- ☐ Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus neu'n aelod o Wasanaeth Erlyn y Goron gydag awdurdod i wneud cais ar ran y Cyfarwyddwr.
- ☐ Cyfarwyddwr y Swyddfa Twyll Difrifol neu'n aelod o'r Swyddfa Twyll Difrifol gydag awdurdod i wneud cais ar ran y Cyfarwyddwr.
- ☐ Cyfarwyddwr Cyffredinol Fisâu a Mewnfudo y DU neu'n swyddog mewnfudo gydag awdurdod i wneud cais ar ran y Cyfarwyddwr Cyffredinol.
- ☐ Arglwydd Adfocad neu'n berson yn cynnal erlyniad yn yr Alban ar ran yr Arglwydd Adfocad.

☐ **TYSTYSGRIF I** *Ymchwiliad o dan Ddeddf Elw Troseddau 2002: Adennill sifil.*

Rwy'n/rydym yn tystio bod *(rhowch fanylion yr eiddo)* yn destun ymchwiliad i weld a yw'n eiddo adenilladwy neu gysylltiedig (o fewn ystyr Rhan 5 o Ddeddf Elw Troseddau 2002), pwy sy'n dal y cyfryw eiddo, neu ei faint neu leoliad; fod sail resymol dros amau bod yr eiddo hwnnw yn eiddo adenilladwy neu gysylltiedig; a bod sail resymol dros gredu bod y wybodaeth ofynnol yn debygol o fod o werth sylweddol (boed ynddi'i hun ai peidio) i'r ymchwiliad.

Rwy'n/rydym yn

- ☐ Gyfarwyddwr Cyffredinol yr Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol neu'n swyddog o'r Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol gydag awdurdod i wneud cais ar ran y Cyfarwyddwr Cyffredinol.
- ☐ Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus neu'n aelod o Wasanaeth Erlyn y Goron gydag awdurdod i wneud cais ar ran y Cyfarwyddwr.
- ☐ Cyfarwyddwr y Swyddfa Twyll Difrifol neu'n aelod o'r Swyddfa Twyll Difrifol gydag awdurdod i wneud cais ar ran y Cyfarwyddwr.
- ☐ swyddog Cyllid a Thollau EF.
- ☐ Gweinidogion yr Alban neu'n berson a enwir ganddynt.
- ☐ Pennaeth Adran yn Is-adran Gorfodi a Throseddau Ariannol yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, neu'n aelod o staff yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol gydag awdurdod i wneud cais ar ran Pennaeth Adran.

☐ **TYSTYSGRIF J** *I hwyluso arfer pwerau gan dderbynnydd neu weinyddwr a benodwyd o dan Ddeddf Masnachu Cyffuriau 1994, Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988, Deddf Elw Troseddau 2002 neu Ddeddf Cyfiawnder Troseddol (Yr Alban) 1987.*

Tystiaf fy mod yn dderbynnydd a benodwyd o dan adrannau 26 neu 29 o Ddeddf Masnachu Cyffuriau 1994, Rhan VI o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 neu adrannau 48, 50, 52, 196, 198, 200 neu 246 o Ddeddf Elw Troseddau 2002 neu'n weinyddwr a benodwyd o dan adran 13 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol (Yr Alban) 1987 neu adrannau 125, 128 neu 256 o Ddeddf Elw Troseddau 2002 a bod y ddogfen amgaeedig a ardystiwyd gan swyddog priodol o'r Llys yn gopi cywir o'r Gorchymyn yn fy mhenodi i fod yn dderbynnydd neu weinyddwr a bod gennyf sail resymol dros amau bod y wybodaeth ofynnol yn debygol o hwyluso arfer y pwerau ddaeth i mi o ran yr unigolyn neu eiddo canlynol:

☐ **TYSTYSGRIF K** *Mewn perthynas ag ansolfedd.*

Tystiaf fod rheswm dros gredu y byddai'r wybodaeth ofynnol o gymorth i mi wneud fy ngwaith fel Derbynnydd Swyddogol, Aseinai Swyddogol, Datodwr, Gweinyddwr neu Ymddiriedolwr mewn Methdaliad

Rwy'n

☐ Dderbynnydd Swyddogol.

☐ Aseinai Swyddogol.

☐ Datodwr.

☐ Gweinyddwr.

☐ Ymddiriedolwr mewn Methdaliad.

☐ **TYSTYSGRIF L** *Mewn cysylltiad ag asesiad, neu faint, rhwymedigaeth treth.*

Tystiaf fy mod yn credu ar sail resymol bod y wybodaeth ofynnol, neu y gall fod, yn berthnasol i unrhyw rwymedigaeth treth ar rywun, neu a all fod ar rywun, neu a all fod wedi bod ar rywun, neu i faint unrhyw rwymedigaeth o'r fath.

☐ Rwyf wedi fy awdurdodi gan Gomisiynwyr Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi i wneud cais ac mae gennyf gydsyniad Tribiwnlys yr Haen Gyntaf, neu lle caiff ei bennu gan neu o dan Reolau Gweithdrefn Tribiwnlys, yr Uwch Dribiwnlys, i wneud y cais hwn.

☐ Rwy'n swyddog Cyllid a Thollau EF.

☐ **TYSTYSGRIF M** *Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol mewn cysylltiad ag asesiad, neu faint rhwymedigaeth treth.*

Tystiaf fy mod yn credu ar sail resymol bod y wybodaeth ofynnol, neu y gall fod, yn berthnasol i unrhyw rwymedigaeth treth ar rywun, neu a all fod ar rywun, neu a all fod wedi bod ar rywun, neu i faint unrhyw rwymedigaeth o'r fath, a bod y swyddogaethau Cyllid Cyffredinol (ar sail y diffiniad yn adran 323 o Ddeddf Elw Troseddau 2002) o ran y person hwnnw yn breinio yn yr Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol.

Rwy'n Gyfarwyddwr Cyffredinol yr Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol neu'n swyddog o'r Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol gydag awdurdod i wneud cais ar ran y Cyfarwyddwr.

☐ **TYSTYSGRIF N** *Mewn cysylltiad â throseddau gwyngalchu arian.*

Tystiaf fod                                        yn destun ymchwiliad gwyngalchu arian at ddibenion Rhan 8 o Ddeddf Elw Troseddau 2002, bod sail resymol dros amau bod y person hwnnw wedi cyflawni trosedd y cyfeirir ato yn adran 415 y Ddeddf (troseddau gwyngalchu arian), a bod sail resymol dros gredu bod y wybodaeth ofynnol yn debygol o fod o werth sylweddol (boed hynny ynddi'i hun ai peidio) i'r ymchwiliad.

Rwy'n

☐ gwnstabl.

☐ swyddog Cyllid a Thollau EF.

☐ ymchwiliwr ariannol achrededig yn dod o fewn adran 378(4)(a) o Ddeddf Elw Troseddau 2002.

☐ Cyfarwyddwr y Swyddfa Twyll Difrifol neu'n aelod o'r Swyddfa Twyll Difrifol gydag awdurdod i wneud cais ar ran y Cyfarwyddwr.

☐ Cyfarwyddwr Cyffredinol Fisâu a Mewnfudo y DU neu'n swyddog mewnfudo gydag awdurdod i wneud cais ar ran y Cyfarwyddwr Cyffredinol.

☐ Arglwydd Adfocad neu'n berson yn cynnal erlyniad yn yr Alban ar ran yr Arglwydd Adfocad.

☐ **TYSTYSGRIF O** *I gynorthwyo'r Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol yn ei gwaith.*

Tystiaf fod sail resymol dros gredu bod y wybodaeth ofynnol yn debygol o fod o werth sylweddol (boed hynny ynddi'i hun neu ynghyd â gwybodaeth arall) wrth gynorthwyo'r Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol i gyflawni un neu fwy o'i swyddogaethau yn unol ag adran 1 o Ddeddf Troseddau a Llysoedd 2013.

Rwy'n Gyfarwyddwr Cyffredinol yr Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol neu'n swyddog o'r Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol gydag awdurdod i wneud cais ar ran y Cyfarwyddwr.

☐ **TYSTYSGRIF P** *Mewn cysylltiad â Deddf yr Amgylchedd 1995.*

Tystiaf fod rhaid i mi gael y wybodaeth ofynnol wrth arfer fy mhwerau neu ddyletswyddau o dan neu drwy rinwedd adran 108 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995.

Rwy'n berson awdurdodedig o fewn ystyr adran 108(15) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995, ac yn gweithredu o dan awdurdod ysgrifenedig:

*[enw'r awdurdod gorfodi fel y'i diffiniwyd yn adran 108(15)]*

☐ **TYSTYSGRIF Q** *Mewn perthynas â Deddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000.*

Tystiaf fod:

- ☐ trosedd y mae pŵer gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus neu Fanc Lloegr ei erlyn o dan Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 ("Deddf 2000"),
- ☐ torri'r gofyniad a osodwyd gan neu o dan unrhyw ymddeddfiad ac y gall yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus neu Fanc Lloegr, neu
- ☐ gamddefnyddio'r farchnad at ddibenion Deddf 2000

wedi digwydd neu ei bod yn rhesymol i amau ei fod wedi digwydd, a bod rheswm dros gredu y gall y wybodaeth ofynnol fod yn berthnasol i ymchwilio'r trosedd, torri'r gofyniad neu gamddefnyddio'r farchnad neu i gychwyn achos yn ei gylch.

Rwy'n:

- ☐ Bennaeth Adran yn Is-adran Gorfodi a Throsedd Ariannol yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol neu'n aelod o staff yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol gydag awdurdod i wneud cais ar ran y Pennaeth Adran.
- ☐ Bennaeth Gweithredu Rheoleiddio yn yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus, neu'n aelod o staff yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus gydag awdurdoddatod i wneud cais ar ran y Pennaeth Gweithredu Rheoleiddio.
- ☐ berson wedi ei awdurdodi i wneud cais ar ran Banc Lloegr (yn gweithredu heblaw yn rhinwedd ei swydd fel yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus).

☐ **TYSTYSGRIF R** *Gorfodaeth Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru a Lloegr o dan Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005.*

Tystiaf y bydd y wybodaeth ofynnol yn fy nghynorthwyo i gyflawni fy mhwerau neu ddyletswyddau o dan neu yn rhinwedd erthygl 27 o Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005.

Rwy'n arolygydd tân neu'n berson arall wedi ei awdurdodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol, neu'n swyddog awdurdod tân ac achub wedi ei awdurdodipennaeth  i wneud cais gan yr arolygydd hwnnw.

☐ **TYSTYSGRIF S** *Ymholiadau'r Comisiwn Elusennau o dan Ddeddf Elusennau 2011.*

Tystiaf fod y Comisiwn Elusennau wedi cychwyn ymchwiliad o dan Ran 5 o Ddeddf Elusennau 2011; Rwy'n cynnal yr ymchwiliad a bydd y wybodaeth ofynnol yn fy nghynorthwyo i gyflawni fy mhwerau neu ddyletswyddau wrth ymgymryd â'r ymchwiliad hwnnw.

Rwy'n

- ☐ swyddog i'r Comisiwn Elusennau sy'n cynnal yr ymchwiliad ar ei ran.
- ☐ berson a benodwyd gan y Comisiwn i gynnal yr ymchwiliad, ac mae'r ddogfen atodedig a ardystiwyd gan swyddog o'r Comisiwn Elusennau yn gopi gwir o'r llythyr sy'n fy mhenodi i gynnal yr ymchwiliad.

☐ **TYSTYSGRIF T** *Mewn cysylltiad â Deddf Lles Anifeiliaid 2006.*

Rwy'n tystio bod trosedd o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 wedi digwydd neu amheuir yn rhesymol ei bod wedi digwydd a bod sail resymol dros gredu y gall y wybodaeth ofynnol fod yn berthnasol i gychwyn achos yn ei gylch.

Rwy'n Brif Weithredwr awdurdod lleol fel y'i diffinnir yn adran 62 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 neu'n aelod o staff yr awdurdod lleol wedi ei awdurdodi i wneud cais ar ran y Prif Weithredwr.

☐ **TYSTYSGRIF U** *Mewn cysylltiad â Deddf Tai 2004.*

Rwy'n tystio bod trosedd o dan Ddeddf Tai 2004 wedi digwydd neu amheuir yn rhesymol ei bod wedi digwydd a bod sail resymol dros gredu y gall y wybodaeth ofynnol fod yn berthnasol i gychwyn achos yn ei gylch.

Rwy'n swyddog awdurdod lleol fel y'i diffinnir yn adran 261 o Ddeddf Tai 2004 wedi ei awdurdodi i wneud cais ar ran yr awdurdod tai lleol.

☐ **TYSTYSGRIF V** *Mewn cysylltiad â Deddf Cynnal Plant 1991.*

Rwy'n tystio y bydd y wybodaeth ofynnol yn fy nghynorthwyo i gyflawni fy swyddogaethau o dan adran 15 o Ddeddf Cynnal Plant 1991. Rwy'n arolygydd a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adran honno.

© Hawlfraint y Goron (cyf: LR/HO) 02/25